Ombudsman
Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Ein cyf: /201506031

Eich cyf:

Dyddiad: 16 Chwefror 2016

Gofynnwch am: Carys Williams

01656 641150

Carys.Williams@ombudsman-wales.org.uk

**PERSONOL & CHYFRINACHOL**

Mr Gareth Clubb
33 Castle Arcade Balcony
CAERDYDD
CF10 1BY

Annwyl Mr Clubb

**Cwyn yn erbyn Llywodraeth Cymru**

Ysgrifennaf atoch ynghylch eich cwyn yn erbyn Llywodraeth Cymru a gawsoch gydnabyddiaeth i ni ei derbyn ar 9 Chwefror 2016. Trosglwyddwyd y gŵyn ataf er mwyn eu hasesu'n bellach.

Wedi ystyried eich cwyn, ynghyd â'r dogfenni wnaethoch yrru atom, mae'n ddrwg gennyf ddweud fy mod wedi penderfynu na ddylid ei hymchwilio. Rwy'n siŵr efallai y bydd hyn yn siom i chi, felly gadewch i mi esbonio pam rwyf wedi dod i'r canlyniad hwn.

**Eich cwyn**

Rydych wedi cwyno am gynlluniau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â choridor yr M4 yn ardal Casnewydd. Fel mae'n digwydd, fe wnaethoch gwyno atom y llynedd am yr un peth ac mae rhai o'r pwyntiau a wnaeth fy nghydweithiwr esbonio amdanynt, yn ei llythyr atoch dyddiedig 9 Rhagfyr 2015, dal yn berthnasol y tro hwn.

Er i chi drafod nifer o bwyntiau ynghylch eich cwyn, yn benodol, roeddech yn honni'r canlynol:

1. Bod gweision sifil Llywodraeth Cymru wedi camarwain pawb yng Nghymru ynghylch ystadegau a gyhoeddwyd ganddynt (nid oeddent yn cydymffurfio â ffigyrau eich ymchwil chi).

2. Yn sgil hyn, roeddech o'r farn fod y gweision hynny wedi torri Côd Ymddygiad y Gwasanaeth Sifil.

3. Nid oeddech yn derbyn esboniad Llywodraeth Cymru yn ei hymateb atoch dyddiedig 20 Ionawr 2016 (ynghylch materion ymgynghori a'r ystadegau) a nid oeddech yn hapus a'r modd wnaeth Llywodraeth Cymru ymdrin â'ch cwyn.

4. Roeddech angen i'r Ombwdsmon "gomisiynu adolygiad arbenigol" ar y materion ystadegol (hyderwch y byddai hwn yn cadarnhau cywirdeb eich ymchwil chi).

5. Bod y gwariant ar yr arddangosfeydd (fel rhan o'r broses ymgynghori) ynghyd â'r gwariant ar y prosiect ei hun yn wastraff arian cyhoeddus.

6. Roeddech wedi treulio dyddiau o amser yn ymchwilio'r ystadegau a bod hyn yn anghyfiawnder personol i chi (ac er na nodwch yn bendant, efallai eich bod yn awgrymu y dylech gael eich digolledi am yr amser hwn).

**Awdurdodaeth yr Ombwdsmon**

Fel yr esboniwyd yn y llythyr atoch nôl ym mis Rhagfyr, ystyried cwynion lle mae cyrff cyhoeddus wedi camweinyddu yw rôl yr Ombwdsmon. Fel arfer mae camweinyddu yn golygu nad yw'r corff dan sylw wedi gweithredu yn unol â'i bolisïau neu ei weithdrefnau. Nid oes ganddo'r hawl i gwestiynu barn a rôl broffesiynol swyddogion cyrff cyhoeddus, n'au casgliadau ar faterion (ac eithrio lle mae'r gwyn yn ymwneud â'r Gwasanaeth Iechyd / Gofal Cymdeithasol).

Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ("y Ddeddf") yn gosod allan pa faterion y gall yr Ombwdsmon ymchwilio iddynt. Mae'n ei rwystro'n gyfreithiol rhag edrych ar nifer o faterion. Mae'r awdurdodaeth hyn, a'r Ddeddf, yn berthnasol i'm penderfyniad i beidio ymchwilio i'ch cwyn (ac fe grybwyllwyd y rhain yn ein llythyr atoch y llynedd).

**Rhesymau dros fy Mhenderfyniad**

**Materion Ystadegol (1, 3, 4 uchod)**
Nid rôl yr Ombwdsmon yw comisiynu adolygiad o faterion ystadegol. Nid oes fodd bynnag, fel esbonnir uchod, hawl gan yr Ombwdsmon i gwestiynu casgliadau proffesiynol swyddogion ar faterion ystadegol lle rydych yn anghytuno â nhw.

**Honiad o dorri Côd Ymddygiad y Gwasanaeth Sifil (2 uchod)**
Fel esboniwyd i chi eisoes, nid yw ymchwiliadau i mewn i honiadau o dorri'r côd hwn oddi fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Mae hyn yn fater mewnol i'r gwasanaeth ei hun ag o bosib yn fater disgyblaeth. Ni all yr Ombwdsmon o dan ei Ddeddf ef ymchwilio na thrin â materion disgyblu swyddogion.

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'ch cwyn (3 uchod)**
Yn fy marn i, er nad ydych yn cytuno â'r casgliadau (yn y llythyr 20 Ionawr 2016) mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r gwyn a wnaethpwyd gennych. Gan ein bod wedi'ch cyfeirio at wneud y gwyn ym mis Rhagfyr 2015, rwyf hefyd o'r farn fod yr ymateb ym mis Ionawr 2016 wedi'ch cyrraedd oddi fewn amser rhesymol.

Er eich bod yn anhapus gyda'r ymateb, fel dywedaf uchod, ni all yr Ombwdsmon gynnig sylwadau ar yr ystadegau a gyflwynwyd na'r materion Côd Ymddygiad.

**Gwariant ar y prosiect (5 uchod)**
Nid yw materion yn ymwneud a gwariant corff cyhoeddus yn syrthio o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Rôl penodol Swyddfa Archwilio Cymru yw edrych ar faterion o'r fath. Fel yr Ombwdsmon, mae'r Archwilydd yn annibynnol o'r llywodraeth (nid yw chwaith yn Was Sifil). Mae ganddo'r hawl i archwilio sut y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario; gan gynnwys sut y mae corff yn sicrhau gwerth am arian wrth gyflawni gwasanaeth cyhoeddus.

Penderfyniad iddo ef yn unig fydd i dderbyn, neu ymchwilio eich cwyn, ai peidio.

Os ydych am gysylltu ag ef, dyma'r wybodaeth isod:

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500 / e.bost: post@archwilio.cymru

**Amser a dreuliwyd gennych yn casglu a dadansoddi gwybodaeth ystadegol (6 uchod)**
Nid wyf yn amau i chi dreulio amser yn dadansoddi'r wybodaeth, fel y dywedwch. Serch hynny, gan nad yw'r materion priodol y cwynwch amdanynt yn faterion i'r swyddfa yma, ni allaf ddod i unrhyw gasgliad bod hyn wedi achosi caledi neu anghyfiawnder i chi. Felly, ni allaf ddedfrydu y dylech gael eich digolledi. Roedd yn broses ymgynghori cyhoeddus ac felly dewis personol yr unigolyn yw pa amser i'w gymryd i ymateb iddo.

Mae'n ddrwg gennyf ond ni all yr Ombwdsmon eich helpu y tro yma.

Rwyf wedi danfon copi dienw o'r llythyr penderfyniad hwn, yn unol ag adran 12 (7) o'r Ddeddf, at Lywodraeth Cymru i'w hysbysu na fyddwn yn ymchwilio i'r gwyn a wnaethpwyd yn ei herbyn. Rwyf felly heddiw yn cau'r ffeil ar eich cwyn.

Rhowch wybod i mi os hoffech i ni ddychwelyd atoch unrhyw ddogfennau a ddarparwyd gennych - er gwelaf mae ar ffurf electronig y danfonwyd popeth yn yr achos hwn. Fel mater o drefn, rydym yn dinistrio copïau caled o ffeiliau cwynion flwyddyn ar ôl cau'r gwyn, heblaw bod rheswm eithriadol dros gadw'r wybodaeth am gyfnod hwy. Byddwn yn dinistrio unrhyw wybodaeth bersonol a gedwir ar gofnod electronig ddeng mlynedd ar ôl cau'r gwyn.

Yn gywir

**Carys Williams**
Rheolwr Ymchwilio Cynorthwyol